Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Rhydaman
# Stryd Fawr
# Rhydaman
# Sir Gaerfyrddin
# SA18 2NS

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Feithrin Rhydaman

Lleolir Ysgol Feithrin Rhydaman yng nghanol tref Rhydaman yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n ysgol ddwy ffrwd ieithyddol. Mae 91 o blant rhwng tair a phedair oed ar y gofrestr ac fe'u derbynnir yn amser llawn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Maent yn trosglwyddo i ysgol gynradd o ddewis eu rhieni erbyn y tymor cyn cyrraedd eu pen-blwydd yn bump oed. Ar hyn o bryd, mae 41 yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg a 50 yn y ffrwd cyfrwng Saesneg.

Tua 25% o'r plant sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol o 19%. Mae'r ysgol wedi adnabod 8% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n sylweddol is na'r ffigwr cenedlaethol o 21%. Nid oes plentyn â datganiad o anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn o'r plant ddaw o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Daw ychydig iawn o'r plant o gefndiroedd ethnig gwahanol lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae'r pennaeth wedi gweithredu fel pennaeth dros dro ers Mai 2016. Penodwyd hi yn barhaol i'w swydd ym Medi 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn Ysgol Feithrin Rhydaman, mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Nodwedd eithriadol o dda yw'r ffordd y mae rhan fwyaf y plant yn datblygu annibyniaeth ac yn gweithredu rolau arwain yn aeddfed iawn er mai plant oed meithrin ydynt. Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn arbennig o dda, yn dangos parch a chwrteisi gwirioneddol at ei gilydd ac oedolion. Maent yn awyddus iawn i ddysgu ac yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn cynllunio'n fedrus i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn arbennig o dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y plant yn y ddwy frwd. Mae'r ysgol yn elwa o weledigaeth uchelgeisiol a chlir y pennaeth. O dan ei harweinyddiaeth gadarn, mae'r holl ymarferwyr yn cydweithio'n agos i greu ethos cartrefol a diogel i'r plant gyda ffocws clir ar godi safonau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Cynllunio gwell cydbwysedd rhwng gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn rhoi mwy o ryddid i blant fod yn greadigol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu

A2 Mireinio gweithdrefnau asesu ac olrhain cynnydd plant

A3 Darparu mwy o gyfleoedd naturiol i blant ymarfer eu medrau ysgrifennu rhydd yn annibynnol ar draws yr ardaloedd dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu rolau arwain cynnar plant i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o blant yn isel ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r ychydig iawn sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gyrraedd eu targedau. Mae rhan fwyaf y plant yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth drafod stori Guto Ffowc. Mae llawer yn datblygu medrau datrys problemau yn briodol, er enghraifft wrth benderfynu ar sut i gadw'r goelcerth rhag disgyn yn yr ardal adeiladu.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae rhan fwyaf y plant yn datblygu eu medrau llafar yn arbennig o dda yn Saesneg yn y ffrwd Saesneg ac yn y Gymraeg yn y ddwy ffrwd. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion. Wrth drafod, maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa yn effeithiol iawn. Er enghraifft, maent yn trafod y tywydd gan ddewis ansoddeiriau ac idiomau priodol.

Mae medrau darllen cynnar rhan fwyaf y plant yn datblygu'n gadarn iawn. Maent yn trin llyfrau gyda pharch ac yn deall eu bod yn darllen print o'r chwith i'r dde. Mae gan lawer ymwybyddiaeth ffonolegol gryf ac maent yn dechrau defnyddio'r wybodaeth i adeiladu geiriau'n llwyddiannus yn y ddwy iaith. Mae llawer o blant yn trafod cynnwys storïau dosbarth yn effeithiol, gyda'r plant hŷn yn rhagfynegi beth all ddigwydd nesaf yn y stori yn synhwyrol.

Mae medrau ysgrifennu mwyafrif o'r plant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn defnyddio ystod eang o offer gan gynnwys sialc, brwsys paent, creonau a phensiliau yn llwyddiannus i greu marciau ar gyfer gwahanol bwrpasau. Mae'r mwyafrif yn dal pensil yn gywir wrth ysgrifennu. Mae'r plant hŷn yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu eu henwau yn lled annibynnol. Yn gyffredinol, ychydig o blant yn unig sy'n dewis ysgrifennu'n rhydd yn yr ardaloedd dysgu.

Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhif. Maent yn cyfrif ac yn adnabod rhifau hyd at 10 yn llwyddiannus, gydag ychydig yn cyfrif rhifau dros 10 yn hyderus. Mae llawer yn adnabod siapiau dau a thri dimensiwn yn dda, gyda'r plant hŷn yn trafod nodweddion y siapiau hyn yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y plant yn defnyddio'u medrau rhif yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu pictogram dosbarth o'u hoff anifail anwes.

Mae medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y plant yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn trin offer TGCh yn hyderus wrth ddewis apiau yn annibynnol ac yn symud gwrthrychau o gwmpas y sgrin i gwblhau jig-so. Mae'r rhan fwyaf yn rhoi cyfarwyddiadau syml i degan rhaglenadwy yn effeithiol ac yn defnyddio pecyn arlunio yn fedrus er mwyn creu lluniau o rocedi yn teithio i'r gofod.

Mae medrau corfforol rhan fwyaf y plant yn datblygu'n effeithiol. Mae llawer yn cryfhau eu medrau mudol mân yn llwyddiannus drwy wehyddu lasys i greu patrwm. Mae'r rhan fwyaf yn gyrru beiciau yn hyderus gan newid cyfeiriad ar gwrs slalom yn fedrus.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau creadigol cadarn. Maent yn dewis offerynnau yn synhwyrol i gyfansoddi darn o gerddoriaeth syml gydag ymwybyddiaeth effeithiol iawn o elfennau cerddorol fel dynameg. O fewn dewis cyfyng, maent yn defnyddio ystod o ddeunyddiau yn addas i greu darnau o gelf fel y pabi coch ar gyfer Dydd Sul y Cofio.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn cyfleu eu teimladau'n effeithiol iawn ar y 'goeden teimladau' yn ddyddiol ac yn cyfiawnhau eu dewisiadau mewn ffordd aeddfed iawn. Er enghraifft, pan fydd plentyn yn drist, mae eraill yn cynnig syniadau er mwyn gwneud iddo deimlo'n well. Maent yn dangos gofal a pharch gwirioneddol tuag at eu ffrindiau, staff ac ymwelwyr ac yn gweithio gyda'i gilydd yn hapus iawn.

Nodwedd eithriadol o dda yw'r ffordd y mae bron pob plentyn yn datblygu annibyniaeth a rolau arweiniol yn gynnar ar ôl dechrau yn yr ysgol. Maent yn cyflawni tasgau ymarferol fel hunangofrestru yn y bore, 'nôl llaeth a dewis a dethol offer addas ar gyfer gweithgareddau heb gymorth oedolyn. Ar ôl defnyddio offer, maent yn tacluso ac yn eu rhoi heibio yn hollol annibynnol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol yn yr ysgol ac yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion eraill yn hynod aeddfed. Trwy gymryd rhan ar y pwyllgorau hyn, mae'r rhan fwyaf yn manteisio ar y cyfle i fynegi barn yn syml a gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd yn yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi cynllunio dathliad cyhoeddus i gydnabod carreg filltir bwysig yn hanes yr ysgol. Mae'r cynghorau yn cydweithio'n llwyddiannus iawn i hybu iechyd da plant ac edrych ar ôl amgylchedd yr ysgol. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r ffordd y mae plant yn manteisio ar gyfleoedd cyson i ailgylchu ar draws y safle. Mae'r nodweddion hyn yn hynod effeithiol o ystyried mai plant oed meithrin ydynt.

Mae ymddygiad bron pob plentyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn groesawgar ac yn ymfalchïo yn eu hysgol. Mae rhan fwyaf y plant yn arddangos lefelau uchel o aeddfedrwydd wrth weithio mewn grwpiau bychain a thorfol ac maent yn ymateb yn frwdfrydig ac annwyl iawn. Mae rhan fwyaf y plant yn cydweithio'n dda iawn ac yn dangos lefel gadarn o ddyfalbarhad yn y gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn chwilfrydig tuag at eu gwaith ac yn ymroi'n yn effeithiol wrth dderbyn syniadau newydd ac anghyfarwydd. Enghraifft eithriadol o dda o hyn yw'r ffordd y mae plant yn adrodd ac yn ynganu geiriau'n fedrus yn ystod sesiynau llythrennedd. Mae bron pob un yn symud rhwng gweithgareddau ac ardaloedd dysgu yn ddidrafferth ac yn effeithiol iawn.

Mae rhan fwyaf y plant yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta'n iach, yfed dŵr yn rheolaidd, a'r angen i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Maent yn dewis amrywiaeth o ffrwythau'n ddyddiol ac yn gwneud defnydd rheolaidd o'r ffynnon ddŵr yn ystod y dydd. Mae gan y rhan fwyaf o blant ddealltwriaeth gadarn iawn o sut i gadw'n iach. Maent yn gwneud hyn yn llwyddiannus drwy weithgareddau fel mynd ar feiciau cydbwysedd yn yr ardal allanol yn rheolaidd a thrwy dyfu llysiau yn yr ardd. Trwy gymryd rhan yn ddyddiol yn y Cynllun Gwên, maent yn deall pwysigrwydd brwsio'u dannedd yn rheolaidd. Nodwedd anarferol i blant o'r oed hwn yw eu

dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynhesu'r llais cyn canu i osgoi rhoi straen diangen arno.

Mae rhan fwyaf y plant yn arddangos lefel uchel o barch a gofal tuag at anifeiliaid anwes yn yr ysgol. Er enghraifft, ar ôl prynu cwningen i'r ysgol, fe wnaethon nhw ymweld â chanolfan siopa anifeiliaid er mwyn rhoi triniaeth iddi. Maent yn rhoi bwyd a dŵr ffes i'r anifeiliaid yn gwbl annibynnol. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr i'w datblygiad fel dinasyddion moesegol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae gan bob aelod staff ddisgwyliadau uchel ac maent yn cynllunio gweithgareddau buddiol sy'n herio plant o bob gallu yn effeithiol. Mae'r staff yn modelu iaith yn arbennig o dda ac yn sicrhau cyfleoedd cyson i ymestyn geirfa'r plant yn ystod gweithgareddau, er enghraifft wrth chwarae rôl yn y caffi. Gwnânt ddefnydd ardderchog o ganeuon i ddatblygu patrymau iaith a medrau rhifedd y plant. Yn y ffrwd Saesneg, mae staff yn defnyddio'r Gymraeg yn fedrus yn ystod gweithgareddau bob dydd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau llafar y plant.

Mae'r holl ymarferwyr yn gweithio'n agos fel tîm. Mae hyn yn sicrhau cysondeb yn y defnydd o strategaethau dysgu a'r gweithgareddau a ddefnyddir yn y ddwy ffrwd. Maent yn holi'n fedrus gan annog plant i feddwl ac yn rhoi digon o amser iddynt wneud hynny cyn ymateb. Yn gyffredinol, mae sesiynau dysgu yn mynd ar gyflymder sionc, er, ar adegau, mae sesiynau ffurfiol yn tueddu i fod yn rhy hir. O ganlyniad, mae ychydig iawn o blant yn dechrau aflonyddu a cholli diddordeb.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau i alluogi plant i wybod beth sy'n dda yn eu gwaith a sut i'w wella. Mae sesiynau torfol yn galluogi plant i fyfyrio ar beth maent wedi ei ddysgu yn llwyddiannus. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant hunanasesu eu gwaith yn rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron pob un yn llwyddiannus. Mae'r cynlluniau gwaith yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y meysydd dysgu yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar, darllen a rhifedd disgyblion yn gynhwysfawr ac yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cynnar plant. Er hyn, nid oes digon o gyfleoedd rheolaidd i blant ysgrifennu'n rhydd wrth weithio'n annibynnol.

Mae ymarferwyr yn ystyried llais y plant yn ofalus wrth gynllunio gweithgareddau. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad â siop elusennol, mae'r plant yn creu siop debyg yn yr ardal chwarae rôl yn yr ysgol. Nodwedd o'r ddarpariaeth sy'n arbennig o dda yw'r defnydd helaeth o ymwelwyr ac ymweliadau i gyfoethogi profiadau'r plant. Mae'r gwaith gyda bardd plant Cymru ac artist lleol ar greu penillion a chymeriadau newydd i hwiangerddi, er enghraifft, yn datblygu medrau llythrennedd a chreadigol y plant yn fedrus.

Yn gyffredinol, mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau ffocws a pharhaus diddorol i'r plant. Fodd bynnag, ar adegau, mae gor-arweiniad ymarferwyr yn cyfyngu ar allu plant i fod yn greadigol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu ac nid oes bob tro ddigon o gydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn gryfder yn y ddwy ffrwd. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol iawn i'r plant ddysgu a chanu hwiangerddi a rhigymau Cymraeg yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth plant o hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft wrth ddysgu am hanes Hedd Wyn mewn gwasanaeth ysgol adeg Sul y Cofio.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn drwyadl. Mae athrawon yn adnabod anghenion plant yn gynnar ac yn darparu cefnogaeth briodol iddynt yn fuan. Mae'r rhain yn cyfrannu'n fuddiol at wella'u safonau cyflawniad. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir ac maent yn cael eu trafod yn rheolaidd gyda'r rhieni a'r plant. Maent yn amlinellu gweithgareddau penodol i sicrhau cynnydd. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn monitro'r cynlluniau a chynnydd y plant yn gyson. O ganlyniad, mae'r plant hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau unigol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i olrhain cynnydd plant. Mae aelodau staff yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithlon i adnabod anghenion unigolion a grwpiau penodol o blant, a darparu ar eu cyfer. Er hyn, nid yw'r prosesau'n ddigon hylaw i alluogi staff i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r wybodaeth i fodloni anghenion dysgu ychydig iawn o blant.

Mae trefniadau'r ysgol i hyrwyddo a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant am bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran bwyta ac yfed yn effeithiol. Cyflawnir hyn yn llwyddiannus mewn gwersi, trwy drefnu ymweliadau gan bobl fel Gari Gofal a thrwy fynd â'r plant ar ymweliadau pwrpasol. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad i'r archfarchnad leol i brynu cynhwysion ar gyfer paratoi 'cibabs ffrwythau' a 'smwddis iachus'. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd hynod greadigol o'r ardal tu allan i alluogi'r plant i ddatblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio beiciau cydbwysedd a chydweithio i ddatrys problemau yn y pwll peli ym Mwthyn y Ddraig. Mae hyn yn cyfoethogi gwybodaeth y plant am bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol iawn â rhieni. Mae cyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i rieni'n barhaus. Mae'r ysgol yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd yr ysgol. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw'r ffordd y maent yn annog y rhiant a'r plentyn i gydweithio i ddatblygu adnoddau ar gyfer yr ardal allanol.

Mae partneriaeth gref yn bodoli rhwng yr ysgol â'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd buddiol i blant i gymryd rhan a pherfformio yn y gymuned drwy ddiddori'r henoed, er enghraifft. Daw nifer helaeth o ymwelwyr i'r ysgol, sy'n cyfoethogi profiadau dysgu a datblygiad cymdeithasol y plant yn dda iawn. Er enghraifft, mae aelod o'r frigâd dân yn ymweld i addysgu plant am beryglon cysylltiedig â thân gwyllt.

Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn darparu gwybodaeth werthfawr i'r plant am faterion pwysig sy'n briodol i'w hoed a'u hanghenion. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ddysgu am amrywiaeth, pwysigrwydd hunaniaeth a'r

gwahaniaethau rhwng yr hyn sy'n dda a drwg. Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth plant o ddiwylliannau eraill yn effeithiol, er enghraifft trwy astudio dathliadau fel Diwali. Maent yn cael cyfleoedd cyson dda i fyfyrio yn ystod y dydd, mewn gwasanaethau torfol ac ar lawr y dosbarth. Mae gwaith yr ysgol o ran esbonio pwysigrwydd masnach deg i blant, a'r effaith y gall ei chael ar helpu ffermwyr a masnachwyr mewn gwledydd tlotach yn gadarnhaol. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr tuag at eu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli'r safle a diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad cadarn ac effeithiol ar gyfer datblygiad strategol yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu ysgogol a chyfoethog ar gyfer y plant mewn awyrgylch hapus a diogel. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn gyda'r staff y llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llawn at ei gwireddu drwy gydweithio'n agos iawn. Mae hon yn nodwedd gref o waith yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n bwrpasol at ddatblygiad yr ysgol. Trwy dderbyn gwybodaeth gynhwysfawr gan y pennaeth ac ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i arsylwi ar weithgareddau dysgu, mae ganddynt wybodaeth gyfredol a manwl am ansawdd y ddarpariaeth, safonau cyflawniad a chynnydd plant. Mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'n effeithiol at drafodaethau i bennu blaenoriaethau datblygiad yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i sicrhau atebolrwydd ac i ddwyn yr ysgol i gyfri am ei pherfformiad.

Mae trefniadau hunanarfarnu'r ysgol yn drylwyr ac yn seiliedig ar amrediad eang o dystiolaeth ddefnyddiol, gan gynnwys craffu ar waith, siarad â phlant, arsylwadau gwersi a chydweithio agos. Mae'r staff cyfan yn chwarae rhan allweddol yn y gweithdrefnau hunanarfarnu. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer gwelliant ac maent yn trafod y rhain yn rheolaidd fel rhan greiddiol o'u cyfarfodydd staff. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn amlinellu blaenoriaethau'r ysgol yn glir, ynghyd â chamau gweithredu pwrpasol a meini prawf llwyddiant priodol. Mae arweinwyr a staff yn gwerthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn rheolaidd ac effeithiol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau.

Mae'r holl staff yn ysgwyddo amrediad o gyfrifoldebau arwain yn hyderus. Maent yn cydweithio a rhannu arbenigedd ymysg ei gilydd yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddarparu hyfforddiant mewnol sy'n manteisio ar eu harbenigedd. Mae hyn yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella safon y ddarpariaeth a safonau plant. Mae arweinwyr yn darparu amrediad da o brofiadau dysgu proffesiynol defnyddiol i'r staff. Mae'r rhain yn seiliedig ar flaenoriaethau'r ysgol ac anghenion datblygu personol staff. Mae hyfforddiant ar gyfer datblygu strategaethau darllen, er enghraifft, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau'r plant.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn ofalus. Maent yn cysylltu penderfyniadau gwariant â blaenoriaethau datblygiad cyfredol yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd llwyddiannus o'r grant datblygu'r blynyddoedd cynnar i

gefnogi disgyblion sydd â hawl i brydau bwyd am ddim drwy weithredu ymyraethau penodol. Mae'r ymyraethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llythrennedd, rhifedd a phersonol a chymdeithasol y plant hyn.

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff ac adnoddau sydd o ansawdd uchel ac sy'n diwallu anghenion y cwricwlwm yn llawn. Mae'r staff yn defnyddio'r adnoddau'n fedrus i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r ardaloedd allanol yn adnoddau hynod effeithiol sy'n cael eu defnyddio'n greadigol i ddatblygu medrau'r plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/2018